# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Tŷ Glangarnant (Oedolion Ifanc)**

**Glan Garnant**
**Heol Neuadd Road**
**Rhydaman**
**SA18 1UF**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

## 7 Ebrill 2022

07/4/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Thŷ Glangarnant (Oedolion Ifanc)

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion heb nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Swanton Care and Community (Maesteilo Care Homes) Ltd a Swanton Care & Community Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 9 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Yn gweithio tuag ato. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu'n dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt gan dîm craidd o staff sy'n eu hadnabod yn dda. Mae'r tîm yn cynnwys rheolwr, dirprwy reolwr a gweithwyr cymorth. Mae'r staff yn garedig ac yn ofalgar ac mae ganddynt berthynas dda â'r bobl y maent yn eu cefnogi. Mae'r cynlluniau personol yn gywir ac yn gyfredol a cheir atgyfeirio at weithwyr proffesiynol yn ôl yr angen. Mae angen gwelliannau i'r broses adolygu bob chwarter, gan wahodd cynrychiolwyr y bobl, pan fo hynny er budd pennaf yr unigolyn.

Mae'r bobl yn cymryd rhan mewn prosiectau ailaddurno yn y cartref i sicrhau bod eu man byw yn bersonol iddynt ac yn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig iddynt. Mae naws gartrefol yn amlwg yn Nhŷ Glangarnant, ac mae mesurau gofynnol ar waith i sicrhau bod y bobl yn cael eu diogelu.

Mae'r unigolyn cyfrifol fel arfer yn cwblhau ymweliadau bob chwarter yn ôl yr angen, ond bydd angen cwblhau ymweliad y chwarter hwn yn rhithiol oherwydd ei amgylchiadau personol a statws COVID-19 y cartref yn gynharach eleni. Cynhaliodd y cyfarwyddwr rhanbarthol ymweliadau ategol ychwanegol. Mae adroddiad adolygu ansawdd gofal ar gael, a chaiff gwelliannau eu gwneud i'r cartref a'r gwasanaeth a ddarperir er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael profiad o wasanaeth sy'n gwella.

Mae hyfforddiant a gwiriadau cyn cyflogaeth ar waith i sicrhau bod staff yn cael eu recriwtio'n ddiogel. Mae angen gwella'r system sydd gan y darparwr ar waith i rybuddio am ddyddiadau adnewyddu gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

## Llesiant

Mae’r bobl yn iach ac yn egnïol ac maent yn cael eu cefnogi i wneud yr hyn sy’n bwysig iddynt. Gwelsom y bobl yn cymryd rhan yn eu gweithgareddau dyddiol o amgylch y cartref, megis trefniadau glanhau eu hystafelloedd, mynd am dro neu fynd i apwyntiad iechyd. Roedd un unigolyn yn cael ei gefnogi i fynd i’r swyddfa basbort i gael pasbort wedi’i ddiweddaru ar gyfer gwyliau a gynlluniwyd. Gwelwyd y staff yn annog ac yn rhyngweithio’n ofalgar gyda’r bobl ac yn cefnogi eu gweithgareddau.

Caiff y bobl eu cefnogi i ymgysylltu â’u cymuned ac i gyfrannu ato, ac i gael bywyd cymdeithasol. Anfonir cylchlythyrau at aelodau’r teulu ac at weithwyr proffesiynol bob mis. Mae’r cylchlythyrau hyn yn bersonol i’r unigolion ac yn cynnwys lluniau o’u digwyddiadau megis partïon pen-blwydd a gweithgareddau fel diwrnodau ar y traeth a phobi ar gyfer Dydd San Ffolant a noson tecawê. Mae’r bobl a’r staff yn Nhŷ Glangarnant yn cefnogi digwyddiadau elusennol ac mae ganddynt arddangosfeydd yn y cartref i ddangos y digwyddiadau a gynhaliwyd a’r gweithgareddau codi arian a gyflawnwyd. Mae’r bobl yn cael eu cefnogi i gadw mewn cysylltiad â’u teuluoedd. Caiff ymweliadau aelodau’r teuluoedd eu trefnu’n rheolaidd a chaiff ymweliadau yn y cartref eu hwyluso yn unol â chanllawiau cyfredol COVID-19. Siaradir â phobl yn Gymraeg os mai dyma yw eu hiaith gyntaf.

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch. Mae’r staff yn amyneddgar ac yn ymateb i anghenion a cheisiadau unigol drwy flaenoriaethu’r hyn sy’n bwysig i’r bobl. Mae ‘naws deuluol’ yn amlwg yn Nhŷ Glangarnant, a gwelwyd un unigolyn yn cofleidio aelod o’r staff ac yn dweud ffarwel cyn mynd allan i siopa. Mae’r bobl a’r staff yn mynd i’r swyddfa pan maent yn dymuno gwneud, ac mae polisi ‘drws agored’ ar waith. Mae gan y bobl ymdeimlad o berthyn. Ymhlith yr adborth a gafwyd, dywedodd un “*Mae’n teimlo fel teulu – mae pawb mor gyfeillgar”.*

Mae gwybodaeth am gyfleoedd gofal a chymorth ar gael i’r bobl. Mae canllawiau wedi’u diweddaru ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth mewn fformat addas, yn cynnwys canllawiau hawdd eu deall ar gyfer cwynion, a derbyniadau i Dŷ Glangarnant. Roedd gan y bobl eglurhad, ar ffurf lluniau, o’r gwaith adnewyddu sy’n mynd rhagddo yn y cartref a sut y byddai hyn yn effeithio arnynt. Mae cofnodion cyfarfodydd misol y gweithwyr allweddol y mae’r bobl yn cyfrannu atynt yn y ffeiliau gofal. Mae angen gwelliannau i’r broses adolygu chwarterol ac mae angen cynnwys cynrychiolwyr y bobl. Bydd hyn yn caniatáu i lais y bobl gael ei gynrychioli ymhellach ac i’w canlyniadau gael eu cyflawni.

Mae’r darparwr yn sicrhau bod digon o weithwyr gofal gwybodus, cymwys a medrus i ddarparu cymorth priodol i’r bobl er mwyn cyflawni eu canlyniadau personol. Mae’r prosesau recriwtio sydd ar waith yn sicrhau bod y bobl yn cael eu diogelu; fodd bynnag, nid yw system rybuddio’r sefydliad ar gyfer adnewyddu gwiriadau’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ddigonol. O ganlyniad i hyn nid yw nifer o ddiweddariadau i wiriadau

Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd y staff yn ddilys. Mae hon yn risg bosibl i ddiogelwch a llesiant y bobl, ac mae angen i'r darparwr ei wella.

## Gofal a Chymorth

Mae'r cynlluniau personol yn gywir, yn gyfredol, ac ar y cyfan yn adlewyrchu'r cymorth sydd ei angen ar y bobl i gyflawni eu canlyniadau. Mae'r cynlluniau nod yn glir, ac ynddynt luniau a chofnodion i adlewyrchu pwysigrwydd cyrraedd y nodau. Gwelsom dystiolaeth ffotograffig ardderchog o weithgareddau ac o nodau'n cael eu cyflawni. Caiff hyn hefyd ei adlewyrchu yng nghylchlythyrau misol pob unigolyn. Ymhlith yr adborth a gafwyd gan deuluoedd, roedd: "*Mae'r staff mor hyfryd – mae cylchlythyr yn cael ei anfon atom ni bob mis ac mae hwnnw hefyd yn ein cadw mewn cysylltiad.* " Mae'r bobl yn cyfrannu at gyfarfodydd misol gyda'u gweithwyr allweddol.

Mae'r staff yn cwblhau adolygiadau o'r cynlluniau bob chwarter, ond yn aml nid yw cofnodion megis *"dim angen newid ar hyn o bryd"* a *"dim newidiadau ar hyn o bryd"* yn adlewyrchu'r cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n cael ei ddarparu. Ni chaiff cyfarfodydd eu cynnal bob chwarter i adolygu gofal y bobl fel sy'n ofynnol, ac felly ni chaiff eu cynrychiolwyr eu gwahodd na'u cynnwys. Rydym yn disgwyl i'r darparwr cofrestredig gymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd hyn yn yr arolygiad nesaf.

Cyflwynwyd mesurau priodol ar gyfer COVID-19. Mae hylif diheintio dwylo a chyfarpar diogelu personol ar gael. Mae'r staff yn gwisgo masgiau wyneb yn ôl yr angen ac mae'r staff a phob ymwelydd yn cynnal profion. Dywedodd un aelod o'r teulu wrthym "P*an maen nhw'n dod ag A i ymweld, maen nhw'n gwisgo masgiau".* Mae cofnodion rhagorol ar waith o ran brechiadau COVID-19. Mae asesiadau galluedd meddyliol a phenderfyniadau budd pennaf wedi cael eu cofnodi pan yn berthnasol. Mae'r wybodaeth yn ffeiliau gofal y bobl, ynghyd â siartiau arferion ymolchi dwylo a rhestrau gwirio ar waith.

Gwneir atgyfeiriadau at weithwyr proffesiynol a cheir tystiolaeth ohonynt mewn dogfennau amrywiol trwy gydol y dogfennau gofal. Mae meddyginiaethau'n cael eu storio a'u rhoi yn ôl yr angen, gydag archwiliadau ar waith i nodi unrhyw feysydd i'w gwella neu eu datblygu. Caiff unigolion eu cynorthwyo i gynnal deiet iach ac yfed digon o hylif. Mae bwydlenni tymhorol yn cael eu haddasu ac yn gyffredinol mae'r bobl yn cael eu cefnogi i ddewis eu hoff brydau. Mwynheir amser bwyd gydag eraill yn y cartref neu yn ardal fyw unigolion os yw'n well ganddynt. Pan fydd angen addasu deiet unigolion, mae'r staff yn ymwybodol o hyn ac yn ystyried hyn wrth siopa am fwyd a pharatoi prydau bwyd.

## Yr Amgylchedd

Mae'r rheolwr a'r staff yn sicrhau bod yr amgylchedd yn gweddu i hoffterau ac anghenion yr unigolion lle bo modd. Mae'r ystafelloedd gwely yn bersonol ac mae'r ystafelloedd wedi'u paentio yn y lliw y mae'r bobl yn ei ddewis, ac wedi'u haddurno ag eitemau sy'n bersonol iddynt. Gwelsom luniau cyn addurno ac ar ôl addurno ardal fyw un unigolyn. Roedd y bobl yn falch o ddangos eu hystafelloedd i ni a gwnaethant ddweud wrthym sut yr oeddent wedi mynd ati i'w haddurno. Gwelsom ystafelloedd gwlyb ac ystafelloedd cawod wedi'u hadnewyddu. Yn ystafell un unigolyn roedd brasluniau o'i hoff gymeriadau ar y wal, ac roedd yn fwriad eu paentio. Ychydig iawn o eitemau oedd gan rai ystafelloedd i sicrhau diogelwch yr unigolion, ac mae hyn wedi'i gofnodi yn yr asesiadau risg unigol. Mae synwyryddion wedi'u gosod lle bo angen, er mwyn i larymau alw am gymorth staff os oes angen cymorth ar unigolion.

Caiff gwiriadau cynnal a chadw ac archwiliadau o'r amgylchedd eu cyflawni; fodd bynnag, fe wnaethom nodi nad oedd rhywfaint o ddifrod i ffenestri Persbecs yr hafdy wedi'i dacluso a gallai achosi anaf. Pan drafodwyd hyn gyda'r dirprwy reolwr, hysbyswyd yr aelod o staff cynnal a chadw, a gwnaed yr ardal hon yn ddiogel ar unwaith.

Mae rhaglen o brofi offer o bryd i'w gilydd yn dangos bod gwiriadau cynnal a chadw yn cael eu cynnal yn ôl yr angen. Mae'r rhain yn cynnwys profi offer diogelwch tân ac asesiad risg tân. Dywedwyd wrthym fod asesiad risg legionella wedi'i gwblhau'r wythnos cyn yr ymweliad arolygu, a bod adroddiad yn yr arfaeth.

Gwelsom waith adnewyddu parhaus yn y cartref ar ddiwrnod yr arolygiad ac roedd yr ystafell synhwyraidd yn cael ei phaentio. Gwelsom rywfaint o lwydni yn yr ystafell golchi dillad. Dywedodd y rheolwr wrthym fod y plastrfyrddau wedi'u harchebu a bod gwaith adnewyddu'r ardal hon ar fin digwydd.

Ar y cyfan, mae Tŷ Glangarnant yn gartrefol a chyfforddus, ac mae gan y bobl fynediad i bob ardal ac mae cymorth ar waith yn ôl yr angen. Roedd y bobl yn dangos yr hyder oedd ganddynt i dreulio amser gyda phob aelod o staff a gwelsom bolisi drws agored ar waith, gan gynnwys i swyddfa'r rheolwr. Caiff cyfathrebu agored ei annog a'i gefnogi mewn modd gofalgar.
Ymhlith yr adborth cafwyd sylwadau fel "*Mae Glangarnant yn gartref arbennig iawn".*

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r bobl yn cael cymorth, sy'n cyd-fynd â'r datganiad o ddiben. Mae'r datganiad o ddiben yn cael ei ddiweddaru a'i gyflwyno i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn ôl yr angen.

Mae systemau sicrhau ansawdd ar waith i sicrhau bod y bobl yn cael profiad o wasanaeth sy'n gwella. Cwblhawyd ymweliadau chwarterol ac ymweliadau ychwanegol y llynedd gan yr unigolyn cyfrifol a'r cyfarwyddwr rhanbarthol. Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi gallu mynychu'r cartref yn bersonol eleni oherwydd statws COVID-19 y cartref a rhesymau personol eraill. Mae'r cyfarwyddwr rhanbarthol wedi cynnal ymweliadau ychwanegol oherwydd na all yr unigolyn cyfrifol wneud hynny, ac mae'r unigolyn cyfrifol wedi trefnu ymweliad rhithwir. Cwblheir adroddiad adolygu ansawdd gofal bob chwe mis.

Mae cofnodion hyfforddi'r gweithwyr yn dangos bod hyfforddiant hanfodol y gweithwyr gofal yn gyfredol, â'u bod yn cyflawni hyfforddiant arbenigol megis ymwybyddiaeth awtistiaeth ac epilepsi. Mae hyn yn sicrhau bod gweithwyr gofal yn bodloni gofynion eu rôl, i ddiwallu anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi. Nid yw'r holl staff wedi cwblhau hyfforddiant rheoli ymddygiad personol. Cadarnhaodd y rheolwr fod dyddiadau wedi'u trefnu i staff fynychu'r sesiynau ymarferol wyneb yn wyneb.

Mae gwiriadau cyn cyflogaeth gofynnol ar waith cyn i weithwyr newydd ddechrau cefnogi'r bobl. Mae hyn yn cynnwys gwirio geirdaon, ffotograff adnabod a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Nid yw'r system sydd ar waith ar gyfer cofnodi gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn rhybuddio'r darparwr pryd y daw'r gwiriadau i ben. Nid oes gan dri aelod o staff allan o 24 wiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae hyn yn cynnwys un a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2021. Nid oedd asesiadau risg ar waith. Aeth y rheolwr i'r afael â hyn gyda'r adran adnoddau dynol a chadarnhaodd y rhoddwyd asesiadau risg ar waith yn ystod yr arolygiad fel mesur dros dro. Rydym yn disgwyl i'r darparwr cofrestredig gymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd hyn yn yr arolygiad nesaf.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Roedd yr holl staff wedi cael tair sesiwn oruchwylio unigol yn ystod y 12 mis blaenorol, ac roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi cael pedair sesiwn oruchwylio unigol. Nid yw'r arfarniadau blynyddol wedi'u cwblhau'n gyson dros y 12 mis diwethaf. Rydym yn cymryd yr achosion o COVID-19 a brofodd y cartref yn gynharach eleni i ystyriaeth. Roedd rhai arfarniadau wedi'u cwblhau ac eraill ar yr amserlen ar gyfer y mis hwn. Mae'r rheolwr yn ymwybodol o hyn ac mae ganddo gynllun i'w cyflawni. Cafodd y ffurflenni arfarnu eu hadolygu a dangoswyd ffurflen arfarnu inni wedi'i chwblhau'n rhannol ar gyfer arfarniad a gynlluniwyd ar gyfer diwrnod yr arolygiad. Mae adborth gan y staff yn gadarnhaol ynghylch lefelau staffio a'r cymorth sydd ar gael "*Os oes angen unrhyw beth, maen nhw yno"* a *"Mae'r gofal a'r cymorth yn dda iawn. Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi gweithio yma ers blynyddoedd".*

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chafodd ei gyflawni** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe gafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu â chymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf.  Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |

| | | |
|---|---|---|
| 16 | Nid yw cynrychiolwyr y bobl yn cael eu gwahodd i adolygiadau gofal bob chwarter. | Newydd |
| 35 | Ni wneir cais am wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a sicrhau eu bod ar waith o fewn y cyfnod gofynnol o dair blynedd. | Newydd |

**Dyddiad cyhoeddi** 23/06/2022'